cylchgrawn newyddion Agoriadcyf

# InSight

rhifyn y gwanwyn • 2014

**Helping people with disadvantages to achieve independence through employment**

**Rhoi help llaw i bobl dan anfantais ddod yn annibynnol drwy weithio**

# Gweithio mewn partneriaeth lwyddiannus i ganfod bylchau mewn sgiliau



## Pan ddaw i ben ym Mawrth 2014, bydd dros 3,000 o bobl drwy Gymru wedi cael manteision o'r rhaglen Sgiliau Gwaith (Cymru).

Er Hydref 2012 bu Agoriad yn gweithio mewn partneriaeth gyda Working Links Wales ar gyfer darparu Rhaglen Sgiliau Gwaith (Cymru) yng Ngwynedd ac Ynys Môn.

Cytundeb gan yr Adran Waith a Phensiynau ydy Sgiliau Gwaith (Cymru), gyda'r bwriad o roi cefnogaeth i hawlwyr sy'n brin o sgiliau e.e. llythrennedd, rhifedd neu Saesneg fel ail iaith, sy'n eu rhwystro rhag dod o hyd i waith.


Yn ystod eu cyfnod ar y cwrs, bydd unigolion yn gweithio tuag at gyrraedd targedau dysgu sydd wedi dod i'r amlwg o asesiad manwl yn ystod y cyfnod croeso. Bydd y cleient a'r tiwtor yn cytuno ar y targedau fydd yn sail i'w cynllun dysgu unigol.

Bydd y sesiynau'n canolbwyntio ar gyflogaeth a byd gwaith, ac yn ystod yr 8 wythnos, bydd y cleient yn dysgu datblygu'r sgiliau craidd sydd eu hangen er mwyn dod o hyd i waith, a chadw'r swydd wedyn. Rydym yn canolbwyntio ar ddatblygu sgiliau fel chwilio am waith, llenwi ffurflenni cais am swyddi, ysgrifennu CV trawiadol ac effeithiol, ysgrifennu llythyr i gyd-fynd, a sut i ymddwyn yn ystod cyfweliad.

Prif amcan y rhaglen Sgiliau Gwaith (Cymru) ydy mynd i'r afael â'r bwlch a ganfuwyd mewn sgiliau, a gofalu fod pob unigolyn yn ennill y cymhwyster Sgiliau Hanfodol ar gyfer Gwaith a Bywyd mewn llythrennedd, rhifedd neu Saesneg fel ail iaith.

Erbyn Mawrth 2014, bydd Agoriad wedi cefnogi dros 300 o unigolion wrth iddynt ymgyrraedd at y cymhwyster Sgiliau Hanfodol hwn.

# Wynebu'r her gyda llygaid agored



Cafodd Agoriad ei sefydlu yn 1992 er mwyn helpu pobl ifanc dan anfantais, yn arbennig anableddau dysgu, i ennill sgiliau, cael swydd a byw bywydau annibynnol. Dros y blynyddoedd, datblygodd Agoriad ei wasanaethau er mwyn gweithio gydag unigolion dan anfanteision o bob math, gan gynnwys rhai dan anfantais ym myd gwaith.

Rhan o'r datblygiad hwn fu sefydlu nifer o Fentrau a Chwmnïau Cymdeithasol, a'n galluogodd i ddarparu cyfleoedd gwaith a chynnig cynnyrch a gwasanaethau lleol i'n cymunedau. Digwyddodd hyn yn ystod cyfnod o newid mawr o fewn y cwmni, ond hefyd mewn hinsawdd o ddealltwriaeth ehangach o fanteision mentrau a phrosiectau cymdeithasol.

Dechreuodd Agoriad ei fywyd fel cwmni gan gyflogi dau aelod staff a Bwrdd Ymddiriedolwyr. Erbyn hyn, mae'n cyflogi dros 50 o staff o fewn pum busnes gwahanol. Nod y cwmni ydy darparu hyfforddiant a chyfle am swyddi cynaliadwy i'n cleientiaid. Rydyn ni wedi ymrwymo i gyfarfod anghenion y cwsmer, ac i gystadlu am gontractau, gan ddatblygu mentrau cymdeithasol a masnachu ein nwyddau a'n gwasanaethau ein hunain.

Ein menter ddiweddaraf ydy Mentrau Cymdeithasol Môn Cyf., sydd bellach yn ymuno â Llys Llewelyn, ein caffi a thŷ te yn Aberffraw, a Chaffi'r Parc Caergybi fel menter unigol. Mae hwn yn ddatblygiad newydd cyffrous sydd wedi dod i fodolaeth oherwydd ein partneriaeth â Chyngor Ynys Môn, gyda chefnogaeth gan Lywodraeth Cymru a Cwmnïau Cymdeithasol Cymru. Mae natur gydweithiol y prosiect hwn yn cynnig ei hunan fel model ar gyfer datblygiadau'r dyfodol, nid i Agoriad yn unig, ond hefyd i sefydliadau eraill tebyg.

Mae Ymddiriedolwyr Agoriad yn cydnabod swyddogaeth bwysig mentrau a chwmnïau cymdeithasol yn darparu gwasanaethau mewn partneriaeth gyda'r sector cyhoeddus. Gallent hefyd greu'r cyfle i gyfarfod anghenion y farchnad na fyddai sefydliadau masnachol yn eu gweld fel rhai digon proffidiol, ac yn bwysicaf oll, yr effaith gadarnhaol ar fywydau pobl.

Fel menter gymdeithasol ac elusen gofrestredig, mae Agoriad yn debyg i lawer busnes arall mewn amryw o ffyrdd. Rydym wedi sefydlu ein gwerthoedd craidd, sy'n canolbwyntio ar fod o fudd i unigolion a'r gymuned rydyn ni'n gweithio o'i mewn; rydym wedi datblygu'n gweledigaeth, ein strategaeth, a'n ymwybyddiaeth masnachol, ac fel pob busnes arall, ein amcan ydy creu elw, cyflawni ein cytundebau, datblygu'n cynnyrch, a bod â'r sgiliau ymysg y staff a'r Ymddiriedolwyr fydd yn sicrhau fod y busnes yn parhau'n gynaliadwy ac yn fusnes o ansawdd uchel.

Mae'r cyd-destun rydyn ni'n gweithio ynddo yn debyg i eiddo busnesau eraill - marchnad dynnach, costau uwch, a chystadleuaeth; er hynny, yn groes i fusnesau'n gyffredinol, nid yw rhai elfennau o'n gwaith yn rhoi cyfle i wneud elw. O'r herwydd, mae'n hagwedd tuag at y busnes yn golygu ein bod yn ymdrechu i gynnal cydbwysedd iach rhwng cynhyrchu incwm, ac ailfuddsoddi.

Mae'r berthynas rhwng y Bwrdd a'r staff yn un bwysig iawn yn fy marn i, gan rannu'r weledigaeth, a bod yn rhan o'n tîm 'ni'. Mae'n rhaid inni fod â hyder yng nghyfraniadau'n gilydd, a'r dyfalbarhad i weithio drwy'r amser caled a dathlu'r amser da.

Gan fod darparu gwasanaethau yn y sector cyhoeddus yn gyfnewidiol, bydd cyfleoedd ar gael. Dyma'r her sy'n wynebu'r Ymddiriedolwyr a'r staff - y sialens sy'n hawlio'n sgiliau gorau ni i gyd. Bydd ein gallu i ganfod cyfleoedd a'u datblygu, gan weithio gyda phartneriaid, yn ffurfio'r dyfodol i Agoriad a'i gleientiaid, ond yn ogystal i'r gymuned ehangach o fewn mentrau cymdeithasol.

***Wynebwn ddyfodol diddorol.***

BRACE GRIFFITHS
*Cadeirydd, Agoriad Cyf*




## Y Llywodraeth yn cynnig hyd at £2,275 o gymhelliad cyflog i 160,000 o bobl ifanc rhwng 18 a 24 oed ar y Rhaglen Waith, fydd yn gweithio am gyfnod o 26 wythnos.

Oherwydd y cynnydd mewn diweithdra a'r farchnad waith farwaidd, daeth Llywodraeth y DU i'r casgliad fod angen dull newydd o roi hwb i'r di-waith yn ôl i swyddi. Felly crewyd cymhelliad newydd o'r enw 'Cytundeb Ieuenctid'. Lluniwyd y Cytundeb Ieuenctid i helpu cyflogwyr sydd angen mwy o staff, ond fyddai'n ei chael hi'n feichus i dalu'r tâl llawn. Mae hefyd o fantais sylweddol i gyflogwyr sydd angen lleihau cost eu cyflogau presennol.

### Sut mae'n gweithio:

- *Bydd rhaid talu o leiaf yr Isafswm Cyflog Cenedlaethol i bob person ifanc*
- *£2,275 ydy'r cymhorthdal ar gyfer y sawl a gyflogir yn llawn amser (30+ awr yr wythnos)*
- *£1,137.50 ydy'r cymhorthdal ar gyfer gweithwyr rhan amser (dan 30 awr yr wythnos)*
- *Bydd y cyflogwr yn derbyn taliadau ar ôl 26 wythnos. Fodd bynnag, os ydy'r cyflogwr yn cael ei ystyried yn gyflogwr bach (llai na 50 aelod staff) yna gellir gwneud cais am daliad o £700 ar ôl 8 wythnos.*




### Ydy'ch canfyddiad chi o bobl ifanc yn gywir:

- *Gan fod llai o bobl ifanc yn mynd i'r brifysgol, mae mwy a mwy ohonynt heb fod mewn gwaith, addysg nag hyfforddiant ac sy'n bobl ifanc ddisglair, huawdl ac uchel eu cymhelliad*
- *Gall y bobl ifanc hyn chwistrellu talent newydd, brwdfrydedd a safbwyntiau newydd i mewn i fusnes sy'n edrych tua'r dyfodol*
- *Gallent fod yn sbardun ar gyfer creu swyddi cynaliadwy newydd ac adeiladu sail sgiliau newydd i'r busnes.*

### Pam ddylech chi ddefnyddio Agoriad fel mynediad at Gytundebau Ieuenctid?


Rydyn ni angen cyfleu y manteision ychwanegol sy'n dod o'r Cytundebau Ieuenctid drwy gyfrwng Agoriad.

Rydyn ni'n darparu:

- *Recriwtio di-dâl, gan roi mynediad am ddim i bwll o ymgeiswyr sy'n cael eu paru gyda phob swydd wag*
- *Hyfforddiant cyn penodi er mwyn paratoi ymgeiswyr ar gyfer y gweithle, gan gynnwys mewn crefft adeiladu, adwerthu, lletygarwch a gofal y cwsmer*
- *Rheoli cyn penodi gan gymryd y drafferth, yr amser a'r fenter allan o recriwtio*
- *Cefnogaeth, hyfforddiant a chyswllt i'r person yn y swydd, er mwyn sicrhau fod y cyflogwr a'r gweithiwr yn hapus*

Yn ychwanegol at hyn, rydyn ni'n cynnig gwasanaeth cynhwysfawr i gyflogwr wrth iddo geisio deall pa gynlluniau cyflogi fyddai'n fwyaf addas ar ei gyfer o blith y toreth sydd ar gael.

**Os hoffech gael mwy o wybodaeth a ffeithiau am y Cytundebau Ieuenctid, ffoniwch Tecwyn Roberts ar 01248 361392.**



# Mor hawdd ag 1,2,3?

Darparwr hunangyflogaeth arbenigol ydy Manij; ein nod ni ydy helpu cleientiaid ar y Rhaglen Waith ddechrau eu busnes eu hunain. Mae llawer o bobl yn meddwl fod cychwyn a rhedeg eich busnes eich hunan yn anodd iawn, ac felly dydy'r mwyafrif ddim yn rhoi cynnig arni. Fel arfer, mae hyn am eu bod yn ofni'r anwybod, a'u bod yn rhoi gormod o goel ar bethau a glywsant, gan gynnwys pob math o straeon erchyll am dreth neu achosion cyfreithiol! Gallwn ddweud wrthych y funud hon fod cychwyn busnes yn hawdd iawn, a chyn belled â bod yr ymdrech angenrheidiol yn cael ei wneud gan y perchennog, dylai ymestyn a datblygu'r busnes fod yn hawdd hefyd. Efallai nad yw mor hawdd ag 1, 2, 3, ond dydy o ddim yn gymhleth 'chwaith.

Bellach, mae'r economi'n dechrau adfer, ac mae nifer o arwyddion calonogol i'w gweld, er fod pethau'n dal braidd yn araf ar lawr gwlad. Fe gymer beth amser cyn bod cyflogwyr â digon o hyder i ddechrau penodi eto. Fe gollwyd rhai enwau mawrion yn ystod y dirwasgiad, ond gobeithiwn allu creu rhai newydd ar gyfer y dyfodol.

Os ydy hi'n ymddangos yn anodd neu amhosib ichi gael swydd, mae'n gwneud synnwyr perffaith i gleientiaid greu eu swyddi eu hunain, ac efallai yn y dyfodol, gallent gynnig swydd i bobl eraill. Gallai'r busnes a sefydlwch fod yn syml iawn, neu'n un mwy cymhleth - does dim ots sut mae'n dechrau gan y bydd yn esblygu wrth fynd yn ei flaen. Does dim rhaid i fusnes gyfyngu ei hunan i wneud un math o waith - gallech gynnig nifer o wahanol bethau. Mae rhai cleientiaid yn rhedeg eu busnes tra'n gwneud swydd ran amser er mwyn dod ag ychydig incwm i mewn yn y cyfnod cychwynnol.

Mae'n wybyddus i bawb ei bod yn cymryd amser i fusnes gael ei draed dano - ychydig fisoedd o bosib, neu efallai nifer o flynyddoedd, gan ddibynnu ar y math o fusnes, faint o ymdrech sy'n cael ei gwneud, ac wrth gwrs, lwc! Drwy drugaredd, mae help ar gael yn ystod y cyfnod hwn, gan gynnwys:

- Gall y rhan fwyaf o gleientiaid gael Credydau Treth, sy'n aml ychydig yn llai na'r Lwfans Ceisio Gwaith (neu'n fwy i rai cleientiaid). Rydyn ni'n gwneud asesiad ar ran y cleient o faint ddylai dderbyn, a'u helpu gyda'u ceisiadau, adnewyddiad ac yn y blaen.
- Byddai'r rhan fwyaf o gleientiaid yn dal i dderbyn Budd-dal Tai llawn a/neu Budd-dal y Dreth Cyngor hyd nes y byddai'r busnes yn gwneud digon o elw; byddai lefel yr elw'n ddibynnol ar amgylchiadau pob cleient unigol. Byddwn yn gwneud asesiad o hyn ar ran y cleient er mwyn iddo fod yn gwybod beth yw ei hawliau. Wrth i elw'r busnes gynyddu, a phasio'r lefel hon, byddai gostyngiad graddol yn y Budd-dal Tai a Budd-dal y Dreth Cyngor. Rhown help llaw i'r cleient baratoi ei gyfrifon ac i lenwi ffurflenni hunangyflogaeth y Cyngor (bob tri mis).
- Cronfa cychwyn busnes - mae'r dyddiau pan oedd grantiau niferus ar gael wedi hen basio - dydy'r arian ddim ar gael i wneud hyn bellach. Mae rhai cronfeydd ar gael, ond erbyn hyn benthyciadau llog isel yw'r rhan fwyaf. Grant 40% yw'r Gronfa Fuddsoddi Leol, ond byddai'n rhaid dod o hyd i 60% o'r arian eich hunan. Gallwn helpu'r cleient wneud cais am unrhyw arian y gallai fod â hawl iddo.

Rydyn ni wedi cynorthwyo wrth sefydlu llawer o fusnesau amrywiol - o artistiaid i weithwyr harddwch, arlwywyr a gofalwyr plant i lanhawyr a chrefftwyr, pysgotwyr a garddwyr i beirianwyr ceir, atgyweirwyr cyfrifiaduron i ffotograffwyr, plymwyr i siopwyr, trinwyr coed i lanhawyr ceir, dylunwyr gwefannau i lanhawyr ffenestri ac yn y blaen ...mae'r rhestr yn ddiddiwedd.

Mae bod yn hunangyflogedig ar gael i bawb. O'n profiad helaeth, byddwn yn dweud nad oes un math o berson sy'n dod yn llwyddiannus. Gall ddigwydd i unrhyw un, cyn belled â'u bod yn gweithio'u gorau glas a gwneud pob ymdrech bosib, ac yn cymryd mantais o unrhyw gyfleoedd sy'n dod i'w ran. Pan fo rhywun yn hunangyflogedig, mae mwy o gyfleoedd yn dod i'w sylw am eu bod wrthi'n gweithio ynghanol pobl yn hytrach nag yn segur a'u golwg tua'r llawr.

Fel y dywedais eisoes, rydym yn rhoi help i gleientiaid gydag unrhyw beth sydd ei angen, mwy neu lai. Gallwn gerdded y llwybr gyda nhw, neu ddarparu gwybodaeth yn unig - mae'n dibynnu ar y cleient. Gallech ffonio, ebostio neu anfon neges destun. Gallwn helpu ymhob agwedd ar fusnes - treth, yswiriant cenedlaethol, marchnata, cadw llyfrau, hunan-asesiad, costio, rhedeg busnes neu gyfraith busnes...

*Os oes gan unrhyw un sydd ar y Rhaglen Waith syniad am fusnes, dylent sôn am y peth wrth eu cynghorydd Rhaglen Waith yn Agoriad, fyddai wedyn yn anfon y manylion ymlaen atom ni. Byddwn wedyn yn trefnu apwyntiad i drafod y syniad, sefyllfa bersonol y cleient ac yn y blaen. Does dim pwysau o gwbl; y cwbl a wnawn ar y dechrau ydy cynnig gwybodaeth, a byddai'r cleient wedyn yn penderfynu a ydy o am fynd ymlaen â'r syniad. Felly, cymerwch y cam cyntaf, a gadewch y dyfodol i siawns.*

**Dylan Williams**






# Gwasanaeth brandio labeli Dŵr Cerist yn dal yn boblogaidd

Bu'r cynnig o greu labeli brand yn boblogaidd iawn gyda chwsmeriaid Dŵr Cerist. Mae'r gallu i greu labeli ar sail cynllun brandiau enwog, a hynny ar gynnyrch gwych y dŵr ffynnon sy'n cael ei botelu yn Ninas Mawddwy, wedi apelio at Bortmeirion, y Comisiwn Coedwigo a Stad Rhug, ymysg eraill. Cynigir y gwasanaeth hwn i sefydliadau o bob maint, bach a mawr, a hynny am gost sy'n hynod fforddadwy.

Byddai Dŵr Cerist yn falch o weithio gyda chwsmeriaid i greu a chyflenwi dŵr dan eu labeli penodol nhw. Cysylltwch â sioned@agoriad.org.uk

Caiff Dŵr Cerist ei botelu ger tarddiad y ffynnon hynafol yn Llawr Cae, Dinas Mawddwy. Yn ôl hanes, dywedir mai dyma darddiad y dŵr a yfwyd gan ddynion sanctaidd y mynyddoedd yn yr oes a fu, a'i fod wedi'i fwynhau gan fynaich o'r mynachlog gerllaw, ac efallai gan dywysog neu ddau dros y canrifoedd. Mae ansawdd wych a phurdeb y dŵr yn adnabyddus, ac mae'r lefel isel o fwynau sydd ynddo'n ei wneud yn addas i rai sy'n ceisio bwyta llai o halen.




*Enghreifftiau o labeli ar gyfer cwmniau penodol: Caffi Portmeirion, Stad Rhug, a Choleg Meirion-Dwyfor.*



Cliciwch yma i weld ein e-Lyfr **Beautiful Anglesey & Gwynedd**

## Os oes gennych chi swydd wag, efallai bod gennym ymgeisydd delfrydol ar eich cyfer y gallech fod heb ei ystyried

Mae Agoriad yn ddarparwr hyfforddiant a swyddi gyda **dros 20 mlynedd o brofiad** ac sy'n deall y farchnad lafur leol yn iawn. Gall Agoriad fod yn llinyn cyswllt uniongyrchol rhwng cyflogwyr a phobl abl sy'n chwilio am waith.

Mae gennym dîm o Swyddogion Cyflogaeth drwy Ogledd Cymru sy'n meddu ar brofiad, dealltwriaeth a gwybodaeth leol sydd ei angen i baru'r unigolyn iawn gyda'r swydd briodol.

Mae ein cleientiaid yn amrywio o bobl sy'n chwilio am fynediad, hyd at lefelau proffesiynol, gan ein bod yn gweithio o fewn fframwaith rhaglenni 'O Fudd-dal i Waith'.

***Os oes gennych swydd wag, neu os hoffech chi gael sgwrs anffurfiol gyfrinachol am faterion cyflogaeth, byddem yn falch o glywed oddi wrthych. E-bost: john@agoriad.org.uk***

☎ 01248 361 392

# Gwefannau newydd i Mentrau Cymdeithasol Môn Cyf, Llys Llewelyn ac i Gaffi'r Parc


Rydyn ni wedi lansio gwefan newydd Mentrau Cymdeithasol Môn Cyf, sydd hefyd yn cynnwys y gwefannau newydd ar gyfer Llys Llewelyn a Chaffi'r Parc.

**Chwiliwch amdanynt ar: www.mon-social-enterprises.org.uk**











LLYS LLEWELYN

TŶ TE

**Ar aelwyd Tywysogion Cymru**

Cinio • Te • Cacennau
Diodydd (trwyddedig) • Arlwyo Allanol
Man Cyfarfod i Grwpiau • Siop • Oriel

**Ar agor rhwng 9 y bore a 5 y pnawn 7 diwrnod yr wythnos**

Oriau estynedig ar ddyddiau Iau, Gwener a Sadwrn yn ystod yr haf

Aberffraw, Tŷ Croes, Ynys Môn LL63 5AQ
*Ffôn:* 01407 840847
*E-bost:* linda@agoriad.org.uk

*“Cymerwch hoe i mewn neu allan wrth ddotio at Aberffraw”*


www.llysllewelyn-tearooms.com






Cliciwch yma i weld ein e-Lyfr **Beautiful Anglesey & Gwynedd**


# Heb gymorth, fyddai Gwyndaf ddim wedi cyrraedd y nod o fod yn annibynnol




Cafodd Gwyndaf ei gyfeirio at brosiect Llwybrau Cerdded ym mis Gorffennaf 2012 gan Goleg Meirion-Dwyfor, Glynllifon. Er iddo gwblhau nifer o gymwysterau galwedigaethol, doedd Gwyndaf heb gael y cyfle i ddod yn annibynnol o fewn swydd.

Ar y dechrau, aeth Gwyndaf ar brofiad gwaith i Glwb Golff Pwllheli a Chanolfan Ddringo Beacon yng Nghaernarfon. Ar yr un pryd, cafodd hyfforddiant ar deithio i ac o'r lleoliad gwaith, ac fe astudiodd ar gyfer cymhwyster Workright sy'n ei ddysgu i ddeall sut i ymddwyn yn gywir yn y gwaith. Tra'r oedd o ar y profiad gwaith, cafodd gefnogaeth un i un er mwyn ei helpu i ddatblygu'r sgiliau sydd eu hangen yn y gweithle.

Llwyddwyd i ddod o hyd i waith iddo ar dreial yn Cerrig Granite and Slate Ltd, Pwllheli. Gwaith Gwyndaf oedd sgleinio'r llechi. Ar y cychwyn cafodd gyfnod o 6 wythnos gyda chefnogaeth, ac fel yr oedd amser yn mynd heibio roedd y gefnogaeth ffurfiol yn lleihau wrth i gefnogaeth naturiol iddo gan ei gydweithwyr ddatblygu. Profodd Gwyndaf ei hunan yn weithiwr da, ac fe gafodd gynnig swydd gyflogedig.

Erbyn hyn mae Gwyndaf yn llwyr annibynnol yn ei waith ac mae ganddo berthynas wych gyda'i gydweithwyr. Teilwriodd Cerrig ei gyfnodau gwaith i gyd-fynd gyda'i batrymau teithio. Ar hyn o bryd mae Gwyndaf yn gweithio dyddiau Mawrth a Iau rhwng 11 y bore a 2 y pnawn, gan deithio'n annibynnol yno ac yn ôl adref. Fel aelod o'r staff, mae ei gyfraniad yn cael ei werthfawrogi, ac mae'n cyfarfod pob targed sy'n cael ei osod ar ei gyfer. Mae'n cyfan gwbl gartrefol yn y gweithle, ac fe fwynhaodd fynd i'r parti Nadolig yng nghwmni'r lleill.

Mae hyn yn gwneud Wendy, mam Gwyndaf yn hapus iawn. “Fe hoffen' ni ddiolch yn fawr i Sarah Jones, hyfforddwr swydd Gwyndaf, am yr holl gefnogaeth ac anogaeth gafodd o ganddi dros y ddwy flynedd diwethaf. Heb yr help hwnnw, fyddai Gwyndaf ddim wedi cyrraedd y nod o fod yn annibynnol, fel y mae o heddiw.”



*Uchod: Gwyndaf yn paratoi'r llechi yn Cerrig Granite & Slate Ltd.*

*Top: Gwyndaf yn gweithio ar ei ffeil Workright.*

# Golwg newydd ar Ffion

Dros gyfnod y Nadolig yn Rhagfyr 2013 llwyddodd Ffion Williams, sydd ar y cynllun Llwybrau Cerdded, i gael ei chyflogi am gyfnod yn siop 'New Look', Bangor. Cyn hynny, roedd Ffion wedi cael tystysgrif Agored Cymru am 'Brofiad Gwaith', oedd yn tystio i'w chyfnodau ar leoliad gwaith mewn stablau ac mewn caffi.

Yn dilyn hyn, bu Agoriad yn rhoi cefnogaeth i Ffion wrth iddi wneud y trosiad o'r ysgol drwy roi help llaw iddi ysgrifennu CV, a'i dysgu sut i ymdrin â chyflogwyr - sgil a ddefnyddiodd yn llwyddiannus wrth lwyddo i gael gwaith dros yr haf yn ei siop sglodion leol. Ym mis Tachwedd, cychwynnodd Ffion gyfnod o weithio'n wirfoddol yn New Look, gyda chefnogaeth ei hyfforddwr swydd yn Llwybrau Cerdded.

Bu'r profiad hwn, ar y cyd ag agwedd gadarnhaol Ffion bob amser, yn fodd iddi ddatblygu'r sgiliau a'r hyder sydd eu hangen er mwyn cael gwaith parhaol yn y siop. Bwriad Ffion yn y dyfodol ydy dilyn cwrs Hyfforddai Agoriad er mwyn gwella ei sgiliau llythrennedd, rhifedd a thechnoleg gwybodaeth, ac yna gwneud cais am gwrs coleg llawn amser.


walkways
llwybrau cerdded

# Lle lledrithiol i dreulio'r dydd





Môn
Social Enterprises Cyf
Mentrau Cymdeithasol Môn Cyf

**Busnes sy'n masnachu am resymau cymdeithasol a/neu amgylcheddol ydy Mentrau Cymdeithasol Môn Cyf. Mae'n glir ei weledigaeth gymdeithasol, gan wybod mai gwneud gwahaniaeth yw ei nod, pwy mae'n amcanu i'w helpu, a sut i fynd o'i chwmpas hi. Daw'r rhan fwyaf o'i incwm o werthu nwyddau a gwasanaethau. Mae ganddo ddealltwriaeth wirioneddol a lleol o'r angen i ailfuddsoddi unrhyw elw er mwyn hyrwyddo'r weledigaeth gymdeithasol. Cwmni sydd ym mherchnogaeth lawn Agoriad Cyf ydy Mentrau Cymdeithasol Môn Cyf. Mae'n falch o fod wedi datblygu Caffi'r Parc drwy lynu at ei amcanion sylfaenol, ac yn ymfalchïo fod y busnes wedi cyfrannu at y gymuned leol a chynnig cyfleoedd gwaith i bobl y cylch.**





*Parc Gwledig Morglawdd Caergybi sy'n cynnwys dros 106 acer o dirwedd mwyaf deniadol Cymru.*

## Mae Parc Gwledig Morglawdd Caergybi mewn safle odidog, gyda chefndir o glogwyni serth, a Mynydd Caergybi'n urddasol dan ei garped trwchus o rug.

Wrth ymweld â'r Parc gallech gyrraedd Mynydd Caergybi drwy fynd ar hyd Llwybr Arfordir Môn sy'n dirwyn ei ffordd drwy'r parc. Wrth gwrs, gellwch yrru neu feicio i mewn i'r parc - mae trac beicio'r Lon Las yn un o'r ffyrdd y gallech gyrraedd arno. Mae'r staff ar y safle'n gyfeillgar ac yn barod i gynnig unrhyw wybodaeth y gallech fod ei angen, ac mae'r Ganolfan Ymwelwyr yn hynod brysur yn ystod yr haf. Wnaethoch chi erioed roi tro ar gyfeiriadu fel teulu? Mae'n beth hwyliog i'w wneud, ac yn ffordd wych o ddod i adnabod y Parc. Yn ei hanfod, cyfeiriadu ydy defnyddio map i ddod o hyd i gyfeiriadau penodol yn y parc; does dim rhaid poeni os ydy hyn yn ddieithr ichi - mae digon o gyfarwyddiadau i'w cael i'ch rhoi chi ar ben y ffordd.

Gallech grwydro'r Llwybr Natur ar gyfer y teulu, a byddwch yn sicr o fod eisiau ymweld â'r Arfordir Creigiog. Mae'r darn hwn o'r arfordir yn ardal naturiol arbennig iawn gyda golygfeydd gogoneddus; efallai y gwelwch y merlod Cymreig sy'n pori ar yr arfordir am ran helaeth o'r flwyddyn fel rhan o gynllun pori a sefydlwyd ers tro.

Beth am dro bach o gwmpas y llyn? Ar adegau, gallech weld pobl yn defnyddio'r cychod bach ar y dŵr. Hefyd mae pysgotwyr ar y llyn mawr sy'n ceisio dal y carp enfawr ymysg lilïau'r dŵr.

Mae digon o bethau i'w gwneud yn y parc - cerdded, eistedd, bwyta, yfed, ymlacio a mwynhau eich hunan. Hyd yn oed yn ystod misoedd yr haf, mae yno nifer o fannau lle gallech chi fod ar eich pen eich hun a chael llonydd.

Beth am grwydro tuag at yr hen adeilad a elwir y Sied Frics, sydd bellach yn Oriel yr Awyr Agored gyda pheintiadau gan artistiaid fel Tunnicliffe? Mae'n werth ei gweld. Yn y gorffennol, roedd y Sied Frics yn sied ar gyfer brics gwirioneddol. Yn nyddiau'r Frenhines Fictoria, roedd chwarelydda'n digwydd yma, ac os oes gennych ddiddordeb mewn hanes diwydiannol, mae'n brofiad arbennig gallu crwydro o gwmpas safle mor brydferth, gan gael eich atgoffa o bryd i'w gilydd am ei orffennol tra gwahanol.

Rydym wedi trawsnewid hen dŷ'r Warden yn gaffi modern ac ystafelloedd cyfarfod ar gyfer ymwelwyr a phobl leol. Mae'n rhan o gynllun ymestynnol ar gyfer 2014, lle bydd y caffi'n cael ei ddyblu o ran maint, gyda lle i blant chwarae a lle i eistedd allan. Y bwriad ar gyfer yr adeiladau allanol ydy eu datblygu'n llety ar gyfer cerddwyr sy'n awyddus i ehangu eu profiad o Barc Morglawdd Caergybi.

Galwch heibio Caffi'r Parc am fwyd blasus a byrbrydau wedi'u paratoi gan ddefnyddio cynnyrch lleol. Mae'r caffi'n cynnig croeso cyfeillgar i gerddwyr ag eraill sydd am gymryd hoe fach ac edrych o'u cwmpas ar brydferthwch yr ardal.

*Cofiwch fod y Parc, sy'n eiddo i Gyngor Sir Ynys Môn, ac sy'n cael ei redeg gan eu Gwasanaeth Cefn Gwlad ac Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol, ar agor dwy'r flwyddyn. Byddwn yn edrych ymlaen at eich croesawu yno!*





*Caffi'r Parc yn hen dŷ'r warden yn dilyn ei drawsnewidiad yn lle modern a chyfeillgar i gael bwyd, byrbrydau neu bryd ar glud.*

**RHOWCH EICH CLUN I LAWR NEU EWCH Â'CH PRYD AR GLUD**

Gwnewch eich tro yn y Parc Gwledig yn un i'w gofio - bwyd poeth neu fyrbrydau gan ddefnyddio cynnyrch lleol a dewis da o gacennau, i'w bwyta yma neu ar glud.

Ar agor bob dydd am goffi, cinio blasus neu fyrbryd.

**Caffi'r Parc**

**Ffôn: 01407 761317**
**E-bost: kathryn.whiteley@agoriad.org.uk**
**www.caffirparc.org.uk**



# “Mae gweithio ar y rhaglen Sgiliau Gwaith yn gallu bod yn heriol, ond mae’n braf iawn bod mewn sefyllfa i helpu pobl.”

## Bethan Hughes - Swyddog Cyflogaeth

Bûm yn gweithio i Agoriad am saith mlynedd ar wahanol raglenni hyfforddi, gan ennill profiad a sgiliau mewn tasgau amrywiol. Bûm yn dysgu sgiliau sylfaenol, chwilio am leoliadau gwaith, rhoi hyfforddiant ar sgiliau CV, sgiliau cyfweld a sut i ennill hyder.

Ar hyn o bryd rwy’n gweithio ar y rhaglen Sgiliau Gwaith a gychwynnwyd yn Hydref 2012. Mae’r rhaglen hon yn canolbwyntio ar sgiliau sylfaenol y cwsmer - darllen ac ysgrifennu. Is-gontractwyr i Working Links ydym ni, gan dderbyn pobl a gyfeiriwyd atom gan y Ganolfan Byd Gwaith. Mae cynnwys fy niwrnod yn amrywio o ddydd i ddydd. Fel arfer, rwy’n gweithio ar Ynys Môn, ond gan dreulio un diwrnod ym Mangor.

Mae gweithio ar y rhaglen Sgiliau Gwaith yn gallu bod yn heriol, gan fod dysgwyr weithiau’n amharod i ddysgu darllen ac ysgrifennu. Yn aml iawn, cawsant brofiad negyddol yn y gorffennol wrth geisio dysgu yn yr ysgol, a does ganddynt ddim diddordeb o’r herwydd. Byddwn yn gweithio gyda phobl o bob oed a gallu.

Mae’r broses gyfeirio’n cychwyn wrth inni dderbyn galwad ffôn oddi wrth y Ganolfan Waith yn rhoi manylion y cwsmer, a byddwn yn trefnu amser i’r person hwnnw ddod i'n gweld ar gyfer sesiwn groeso. Cynhelir y sesiwn o fewn pythefnos i’r cyswllt cyntaf. Pobl sy’n dychwelyd ar ôl dwy flynedd ar y Rhaglen Waith ydy’r mwyafrif o’r rhai a gyfeirir atom. Bydd pob cwsmer sydd heb gymhwyster ffurfiol lefel 2 neu uwch mewn Llythrennedd a Rhifedd yn cael ei gyfeirio at y rhaglen Sgiliau Gwaith.

Bydd eu sgililau sylfaenol yn cael eu hasesu ar y cyfrifiadur, a bydd hyn yn penderfynu ar eu lefel gyfredol a pha fath o gefnogaeth a help sydd ei angen arnynt. Os yw’r cwsmer yn cyrraedd lefel 1 mewn Llythrennedd a Rhifedd, yna cânt eu cyfeirio’n ôl i’r Ganolfan Waith.

Bydd raid i’r cwsmeriaid sydd ar lefel 1 neu lai fynychu’r cwrs Sgriliau Gwaith, am un diwrnod yr wythnos dros 8 wythnos. Yn ystod y cyfnod hwn, byddwn yn edrych ar eu darllen, ysgrifennu, a’u defnydd o’r cyfrifiadur, a hefyd yn rhoi help iddynt gyda’u CV gan ddefnyddio’r rhaglen baru swyddi - Universal Jobmatch. Ar ddiwedd y cyfnod o 8 wythnos, bydd pob cwsmer yn ennill cymhwyster mewn un ai Rhifedd neu Lythrennedd.



Cliciwch yma i weld ein e-Lyfr **Beautiful Anglesey & Gwynedd**


**agoriadcyf**
realising your potential
gwireddu eich potensial
www.agoriad.org.uk


Porth Penrhyn, Bangor, Gwynedd LL57 4HN
**Tel/Ffôn:** +44 (0)1248 361 392
**Fax/Ffacs:** +44 (0)1248 372 050
**Email/E-bost:** info@agoriad.org.uk



• Registered in England and Wales Wedi’i gofrestru yng Nghymru a Lloegr • Registered No. Rhif Cofrestredig 2700109
• Registered Office Swyddfa Gofrestredig Porth Penrhyn, Bangor, Gwynedd LL57 4HN • Charity No. Rhif Elusennau 1010165